

CALCH



Craig waddod yw calchfaen, sydd wedi'i gwneud o galsiwm carbonad (CaCO_3) yn bennaf. Fe'i ffurfiwyd yng ngwaelod y môr oddeutu 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o galchfaen mewn diwydiant, ac fel carreg adeiladu.



Pan fydd calchfaen yn cael ei gynhesu mewn odyn, mae'r calsiwm carbonad yn dadelfennu yn galsiwm ocsid a charbon deuocsid. Yr enw ar y math hwn o adwaith yw dadelfennu thermol. Gelwir y broses yn galchynnu. Unwaith y bydd calchfaen sydd wedi'i losgi yn troi'n galsiwm ocsid, fe'i gelwir yn galch brwd.



Mae calch brwd yn adweithio gyda dŵr i gynhyrchu calsiwm hydrocsid, sy'n cael ei alw'n galch tawdd hefyd. Defnyddir calch tawdd i leihau asidedd pridd, sy'n helpu i gynyddu ei ffrwythlondeb. Mae llawer o ddefnydd yn cael ei wneud ohono fel deunydd adeiladu hefyd. Mae calch tawdd yn ail-amsugno carbon deuocsid o'r aer yn raddol ac yn troi'n galsiwm carbonad unwaith eto.



CALCHFAEN (Calsiwm carbonad)



CALCH BRWD (Calsiwm ocsid)
CO₂ (Carbon deuocsid) yn cael ei gollu



CALCH TAWDD (Calsiwm hydrocsid)